# Adroddiad Arholwyr Lefel 2

## Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

## Lefel 2

Ionawr 2025

© WJEC CBAC Cyf.



**Cyflwyniad**

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

**Cefnogaeth bellach**

| Dogfen | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC |
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Cyf.

| | | |
|---|---|---|
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon. | Porth CBAC |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC. |
| Arholi gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Arholi gyda ni \| CBAC |

© WJEC CBAC Cyf.

**Cynnwys**

| | Tudalen |
| --- | --- |
| Crynodeb gweithredol | 5 |
| Uned 216 Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant | 7 |
| Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol | 10 |

© WJEC CBAC Cyf.

## Crynodeb Gweithredol

### Trosolwg o'r Uned

Roedd cynnwys y papur hwn yn cyflwyno amrywiaeth o fathau o gwestiynau yn ymdrin â chynnwys Uned 216 fel y nodir yn y fanyleb. Roedd y cwestiynau'n cyfateb i gyfresi blaenorol ac yn debyg o ran arddull i bapurau blaenorol. Defnyddiwyd amrywiaeth o ferfau gorchmynnol cyfarwydd ym mhob adran. Roedd y mathau o gwestiynau'n cynnwys blychau ticio a chwestiynau atebion byr ynghyd â gofynion mwy heriol megis yr angen i ddisgrifio neu ddadansoddi. Roedd yr enghraifft ddiweddarach yn fwy anodd i rai dysgwyr ond cafwyd amrywiaeth o gynigion.

Cyflwynwyd rhywfaint o dystiolaeth dda ar gyfer y Deilliannau Dysgu canlynol:

- DD1 (1.4/1.5/1.6) Gwybodaeth am agweddau ar ddatblygiad (Cw.1a/1b/1ch)
- DD2 (2.2) Deall amrywiaeth o ffactorau wrth gynllunio gweithgareddau (Cw.3)
- DD2 (2.3) Gwybodaeth a dealltwriaeth o leoliadau gofal plant (Cw.4b)
- DD3 (3.1) Effaith mentrau cyfredol y llywodraeth (Cw.6)
- DD4 (4.1) Deall y gefnogaeth ariannol sydd ar gael i hybu cynhwysiant. (Cw.8)
- DD4 (4.2) Deall rôl rhanddeiliaid allweddol (Cw.9b)

Roedd rhai ymgeiswyr wedi profi peth anhawster â'r meysydd canlynol o'r fanyleb:

Cwestiwn 1 (c)
Cwestiwn 2 (a a b)
Cwestiwn 4 (c)
Cwestiwn 5 (a a b)
Cwestiwn 7 (a)

Gallai meysydd i'w gwella gynnwys:

- DD1 Mae angen i ddysgwyr wybod a deall camau a phatrymau cyffredinol pob agwedd ar ddatblygiad.
- DD2 (2.1) Mae angen i ddysgwyr feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amrywiaeth lawn o adnoddau ac amgylcheddau a sut maen nhw'n helpu datblygiad cyfannol.
- DD2 (2.3) Mae angen gwybodaeth a dealltwriaeth ar ddysgwyr o raglenni cyfredol fel Dechrau'n Deg.
- DD3 (3.1) Mae angen gwybodaeth ar ddysgwyr o'r mathau o bolisïau a gweithdrefnau yn ôl yr amlinelliad yn y fanyleb.
- DD4 (4.2) Mae angen i ddysgwyr wybod a deall rolau rhanddeiliaid allweddol yn ôl y rhestr yn y fanyleb.

© WJEC CBAC Cyf.

| Meysydd i'w gwella | Adnoddau ystafell ddosbarth | Disgrifiad byr o'r adnodd |
|---|---|---|
| DD1 (1.1 /1.2/1.3/1.4/1.5/1.6) Mae angen gwybodaeth a dealltwriaeth ar ddysgwyr o gamau a phatrymau cyffredinol datblygiad | Uned 216 – Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (dysguiechydagofal.cymru) | Bydd yr adnodd hwn yn caniatáu i ddysgwyr feithrin gwybodaeth am holl gamau a phatrymau cyffredinol pob agwedd ar ddatblygiad. |
| DD2 (2.1/2.3) Mae angen i ddysgwyr feithrin gwybodaeth am sut gall amgylcheddau dysgu helpu a chefnogi iechyd, llesiant, datblygiad ac anghenion plant o 0 i 19 oed. Dealltwriaeth hefyd o egwyddorion rhaglenni a mentrau cyfredol | Uned 216 – Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (dysguiechydagofal.cymru) | Bydd yr adnodd hwn yn galluogi dysgwyr i feithrin gwybodaeth am sut gall amgylcheddau ac adnoddau helpu datblygiad cyfannol a sut mae mentrau cyfredol yn effeithio ar wella iechyd a llesiant plant yng Nghymru. |
| DD4 (4.2) Mae angen i ddysgwyr wybod am rolau swyddi penodol yn y tîm amlasiantaethol. | Uned 216 – Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (dysguiechydagofal.cymru) | Bydd yr adnodd hwn yn caniatáu i ddysgwyr feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl a gwerth y gwasanaethau gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd sydd ar gael yng Nghymru i gefnogi anghenion gofal, iechyd, llesiant a datblygiad plant. |
| DD3 (3.1) Mae angen i ymgeiswyr wybod am yr amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau yn ôl yr amlinelliad yn y fanyleb. | Uned 216 – Deall Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (dysguiechydagofal.cymru) | Bydd yr adnodd hwn yn caniatáu i ddysgwyr feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r math o bolisïau a gweithdrefnau sy'n angenrheidiol mewn lleoliadau er mwyn sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â deddfwriaeth a rheoliadau |

© WJEC CBAC Cyf.

**GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI**

**Lefel 2**

**Ionawr 2025**

**UNED 216 DEALL GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT**

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cwestiwn 1(a b c ch) DD1 (1.6/1.4/1.1/1.5)**
Roedd 4 rhan i'r cwestiwn hwn lle roedd amrywiaeth o ferfau gorchmynnol yn caniatáu i ddysgwyr lefel uwch ennill marciau ychwanegol. Roedd yr amrywiaeth hon hefyd yn rhoi cyfle i'r dysgwyr lefel is ennill marciau gwerthfawr tuag at y canlyniad cyffredinol. Roedd y ffotograff yng nghwestiwn 1(a) yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr ac roedd llawer o ddysgwyr yn gallu ennill rhywfaint o farciau. Gwnaeth rhai dysgwyr ddefnydd da o'r ffotograff hefyd i gefnogi ymatebion i ran b lle gwnaethant ddatblygu esboniad ar draws amrediad o fandiau gyda rhai yn ennill y 4 marc llawn. Roedd rhan (c) yn ymddangos yn heriol i lawer o ddysgwyr ac nid oeddent yn gallu dangos dealltwriaeth o gerrig milltir corfforol. Collwyd marciau cyraeddadwy am 3 ymateb sylfaenol lle cyfeiriodd dysgwyr at sgiliau neu gerrig milltir eang amhriodol. Roedd angen trafodaeth fanylach oedd yn werth 6 marc ar yr adran derfynol. Roedd rhai dysgwyr yn deall y ferf orchmynnol yn glir ac yn ei defnyddio'n briodol. Roedd ymatebion eraill yn sylfaenol ac nid oeddent yn dangos dealltwriaeth glir o'r ferf na chynnwys y cwestiwn. Cyflwynodd rhai dysgwyr enghreifftiau da o chwarae corfforol ond nid oeddent yn dangos cysylltiad â datblygiad cymdeithasol fel roedd y cwestiwn yn ei ofyn. Cafodd y math hwn o ymateb ei farcio yn unol â hynny, gyda'r arholwyr yn cymhwyso marcio cadarnhaol.

**Cwestiwn 2 (a b) DD2 (2.1)**
Cwestiwn dwy ran oedd yn gofyn i ddysgwyr, yn gyntaf, esbonio sut mae'r gymuned yn cefnogi datblygiad cyfannol ac yn ail, nodi 3 aelod o'r gymuned. Dangosodd dysgwyr ddealltwriaeth amrywiol, a rhoddwyd amrediad o farciau. Roedd yn ymddangos bod rhai ymatebion yn dangos dealltwriaeth o'r hyn oedd ei angen. Roedd eraill yn canolbwyntio ar yr amgylchedd yn gyffredinol. Rhoddwyd marciau yn y band isaf i'r ymatebion hyn ond cafodd pob ymgais ei gydnabod gan yr arholwyr yn dilyn trafodaeth yn y gynhadledd.

**Cwestiwn 3 DD2 (2.2)**
Cwestiwn oedd yn gweithio'n annibynnol oedd yn werth 4 marc. Unwaith eto, ar ôl trafodaeth eang yng nghynhadledd yr arholwyr, caniatawyd rhoi marciau ar draws amrywiaeth o ymatebion. Rhoddwyd marciau ar draws pob band, ac roedd y rhan fwyaf yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth yr oeddent yn gallu ei chrynhoi'n briodol. Collwyd rhai marciau lle cynigiodd dysgwyr restr yn hytrach na chrynodeb.

**Cwestiwn 4 (a b c) (DD2) (2.3)**
Roedd y tair adran o'r cwestiwn hwn yn gofyn i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth o'r amrywiaeth o leoliadau sydd ar gael i blant a theuluoedd yng Nghymru. Roedd llawer o ddysgwyr yn gallu ennill yr un marc oedd ar gael yn rhan (a), a oedd yn gofyn iddynt nodi math o leoliad gofal plant oedd ar gael i deuluoedd. Nododd ychydig o ddysgwyr glybiau ieuenctid neu glybiau chwaraeon nad oedd yn briodol. Ychwanegwyd grŵp rhieni a phlant bach at y cynllun marcio yn y gynhadledd, gan ganiatáu i fwy o ddysgwyr ennill y marc hwn. Cyflwynwyd llawer o grynodebau da yn rhan (b) y cwestiwn lle roedd dysgwyr yn gallu crynhoi sut mae gofal y tu allan i'r ysgol yn gallu bodloni anghenion plant a theuluoedd. Rhoddodd rhai dysgwyr ymateb cyfyngedig a chyfeirio yn unig at rieni yn gallu gweithio.

© WJEC CBAC Cyf.

Roedd hyn yn cyfyngu ar y marciau a roddwyd. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o fenter Dechrau'n Deg yn dal i fod yn anodd i rai dysgwyr ac roedd hyn yn amlwg yn rhan (c) y cwestiwn hwn.

Roedd rhai ymatebion yn amlwg yn dangos dim gwybodaeth am Dechrau'n Deg ac roedd y wybodaeth yn aml yn anghywir. Dim ond rhai dysgwyr oedd yn gallu datblygu ymateb i ennill y 3 marc llawn oedd ar gael.

**Cwestiwn 5 (a b) (DD3) (3.1)**
Nododd lleiafrif yr ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth glir ar gyfer y cwestiwn hwn, gyda'r rhan fwyaf yn ennill marciau yn y bandiau is. Roedd rhai ohonynt yn gallu cyfeirio at y polisi rheoli ymddygiad i raddau amrywiol ac eraill yn cyfeirio at bolisïau anghywir fel diogelu. Cafodd y ferf orchmynnol, argymhellwch, ei defnyddio'n effeithiol gan lawer. Trodd eraill at ddull rhestr a gostiodd farciau iddynt. Gwelwyd lefel amrywiol o ddealltwriaeth yn rhan (b) hefyd. Dewisodd rhai ymgeiswyr ddull ymarferol oedd yn cefnogi eu gwybodaeth a rhoddwyd marciau am hynny.

**Cwestiwn 6 (DD3) (3.1)**
Mae cyflwyno iaith a diwylliant Cymru bellach yn cael ei gydnabod fel rhywbeth pwysig yn y Cwricwlwm newydd i Gymru ac felly mae wedi'i ymgorffori ym mhob lleoliad yng Nghymru. Byddai'n ymddangos o ymatebion bod llawer o ddysgwyr yn profi hyn yn eu lleoliadau. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod rhai dysgwyr o hyd sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o werth defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau ac roedd yr ymatebion yn sylfaenol. Roedd yn achos pryder gweld dysgwyr yn cyfeirio at y Gymraeg fel iaith sy'n marw heb fawr ddim dealltwriaeth o'i gwerth.

**Cwestiwn 7 (a b) (DD4) (4.1)**
Cwestiwn dwy ran yn seiliedig ar y gwasanaethau addysg mae'r awdurdod lleol yn eu darparu. Yn gyntaf, roedd gofyn i ddysgwyr ddisgrifio rôl y seicolegydd addysg. Rhoddwyd amrywiaeth o farciau gyda'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos rhywfaint o wybodaeth am y rôl hon. Roedd yn ymddangos bod rhai dysgwyr yn drysu rhwng y rôl hon a rôl y swyddog diogelu, felly collwyd marciau. Roedd rhywfaint o ddryswch hefyd yn rhan (b) gyda rhai dysgwyr yn nodi aelodau o'r tîm gofal iechyd yn hytrach na'r rhai mewn addysg. Ni roddwyd marciau am nyrs, er enghraifft, ond cafodd marcio cadarnhaol ei gymhwyso, gan ganiatáu i arholwyr roi marc lle roedd dysgwyr wedi nodi Nyrs Ysgol.

**Cwestiwn 8 (DD4) (4.1)**
Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr. Dangosodd y rhai oedd wedi rhannu eu hatebion, gan gyfeirio at enghreifftiau go iawn o gefnogaeth ariannol, ddealltwriaeth well ac ennill marciau uwch lle bo'n berthnasol. Nododd rhai dysgwyr gefnogaeth fel prydau ysgol am ddim ond nid oeddent yn gallu datblygu esboniad mewn perthynas â chynhwysiant, rhoddwyd marciau o fandiau is.

**Cwestiwn 9 (a b) (DD4) (4.2)**
Roedd 2 farc ar gael am enwi 2 aelod o'r tîm amlddisgyblaethol. Enillodd y rhan fwyaf o ddysgwyr y 2 farc hyn sydd ar gael yn hawdd i roi hwb i'w canlyniad cyffredinol. Fodd bynnag, collodd rhai dysgwyr y wybodaeth cyn y cwestiwn oedd yn nodi bod Jane yn gweithio mewn lleoliad blynyddoedd cynnar, gan roi ymatebion amherthnasol megis gweithwyr ieuenctid. Roedd rhan B y cwestiwn hwn yn gofyn am ddatblygu dadansoddiad. Roedd hyn yn anodd i'r rhan fwyaf o ddysgwyr ac, er eu bod yn dangos dealltwriaeth dda o amrywiaeth o randdeiliaid, roedd y dadansoddiad yn gyfyngedig. Rhoddwyd marciau o amrediad o fandiau. Roedd dwy ffordd o fynd ati i ateb y cwestiwn hwn. Dewisodd rhai dysgwyr ymateb ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan ddadansoddi ar wahân sut byddent yn gallu cefnogi plant a theuluoedd.

© WJEC CBAC Cyf.

Gyda'r ffordd arall, roedd dysgwyr yn cynnig dadansoddiad mwy cyffredinol o'r tîm cyfan. Cafodd y ddau ymateb eu derbyn a'u marcio yn unol â chanllawiau'r cynllun marcio.

**Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol**

- Unwaith eto caiff canolfannau eu hatgoffa o bwysigrwydd gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cyflwyniadau i gwestiynau. Mae'r wybodaeth hon ar gael i gefnogi ymgeiswyr ac mae bob amser yn berthnasol i'r cwestiwn. Dylid annog dysgwyr i ystyried hyn wrth ymateb i gwestiynau.
- Mae'r trosolwg yn nodi rhai bylchau mewn gwybodaeth a gellid eu defnyddio i baratoi ar gyfer arholiadau yn y dyfodol. Dylai canolfannau hefyd ystyried osgoi cofrestru dysgwyr cyn gorffen addysgu'r cynnwys. Cyflwynodd rhai dysgwyr ymatebion da iawn i rai cwestiynau ac yna gadael bylchau cyflawn mewn adrannau eraill. Gallai hyn ddangos gwybodaeth gyfyngedig oherwydd cofrestru cynnar.
- Mae deddfwriaeth allweddol a/neu fentrau cyfredol y llywodraeth yn parhau i achosi problem i lawer o ymgeiswyr. Gellid ystyried hyn wrth adolygu ar gyfer yr arholiad lle gall ymgeiswyr fanteisio ar gysylltu mentrau neu raglenni ag ymarfer. Mae'r Uwch Arholwr yn cydnabod bod rhai adrannau o ddeddfwriaeth yn cael eu dileu o'r fanyleb. Atgoffir canolfannau y bydd mentrau/rhaglenni'r Llywodraeth, megis Dechrau'n Deg/yr iaith Gymraeg yn aros dan ddeilliant dysgu 2.
- Anogir canolfannau i ddarllen adborth unigol ar gwestiynau. Gall hyn gefnogi ymgeiswyr yn y dyfodol.
- Atgoffir canolfannau bod cyfle i ddysgwyr gyflwyno gwaith naill ai yn Gymraeg NEU'N Saesneg. Gan nad yw pob arholwr yn gallu marcio yn y ddwy iaith, dylech gynghori dysgwyr i ddewis un iaith yn unig. Bydd hyn yn sicrhau tegwch o ran marcio.

© WJEC CBAC Cyf.

## Eich cefnogi chi

### Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 029 2240 4264
E-bost: GChDDP@cbac.co.uk
Tudalen we'r cymhwyster: Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori (i'w ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2025) (dysguiechydagofal.cymru)

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

### Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

### Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda phrofiad o 70 mlynedd a mwy, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Cyf.